Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(P)KW2184/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd.
CF99 1NA.

25 Mehefin 2018

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr 24 Ebrill 2018 ynghylch adroddiad Cadernid Meddwl yn dilyn eich ymchwiliad i iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc.

Rydym yn croesawu'r adroddiad. Mae'n darparu tystiolaeth ychwanegol at ein gwaith i wella iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc, trwy gydnabod mai mater sy'n croesi ffiniau sefydliadol a proffesiynol yw hwn sy'n fusnes i bob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl ifanc. Mae gan ysgolion a'r GIG ran werthfawr i'ch chwarae, ond ni all eu gwaith hwy yn unig ddatrys yn llwyr yr holl faterion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Mae gennym gyfrifoldeb dros sicrhau gwasanaethau ymatebol ac amserol, ond mae angen hefyd inni fod yn gymesur; peidio â gor-reoli darpariaeth, ac yn bwysicaf oll, osgoi labelu a stigma, pwynt a bwysleisiwyd gan bobl ifanc eu hunain yn adroddiad 2016 sef Gwneud Synnwyr gan ddefnyddwyr ifanc CAMHS.

Rydym yn arbennig o falch bod yr adroddiad yn cydnabod y gwelliant yn y ddarpariaeth iechyd meddwl arbenigol a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw hynny'n golygu nad oes rhagor o waith i'w wneud, yn enwedig mewn gofal sylfaenol, maes sydd angen sylw yn ôl yr adroddiad. Fel y soniais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rydym yn buddsoddi cyllid ychwanegol yn y maes hwn ac rwyf wedi gofyn i Uned Gyflawni'r GIG archwilio'r ddarpariaeth. Er hynny, yr her fwyaf a'r fantais orau y gallwn ei sicrhau yw symud y pwyslais o salwch meddwl i feithrin cadernid a lles emosiynol. Dyma yw ein blaenoriaeth am weddill tymor y Cynulliad hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan ysgolion wrth hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc . Yn Cenhadaeth ein cenedl rydym wedi cydnabod bod angen inni ganolbwyntio ar lesiant ein dysgwyr, sy'n cynnwys eu hiechyd meddwl. Mae argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd â'r cyfeiriad yr ydym wedi'i bennu ar gyfer addysg yng Nghymru. Wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor rydym yn cofio'r angen i fwrw ymlaen â'r agenda hon heb orlwytho'r system bresennol. Rhybuddiodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei asesiad o Welsh Education Reform Journey (2017) am y 'risk of the journey becoming piece meal, not reaching its objectives and with different actors going their own way if additional reforms and activities are introduced that may divert energy from the realisation of objectives'. Yn hytrach na wynebu'r risg o flinder diwygio, bydd Llywodraeth Cymru'n cyplysu'r argymhellion yn *Cadernid Meddwl* â rhaglenni sydd eisoes ar y gweill i gefnogi cadernid emosiynol mewn lleoliadau ysgol.

Mae'r tabl amgaeedig yn darparu ein hymateb i bob un o argymhellion yr adroddiad. Rydym yn fodlon derbyn, neu dderbyn o ran egwyddor, ble y maent yn cefnogi gweithgarwch sydd eisoes yn mynd rhagddo neu a gynigir. Mae yna broblemau o ran amserlenni'r adroddiad. Yn achos rhai argymhellion mae angen gwaith hwyluso ymlaen llaw megis adolygiad Uned Gyflawni'r GIG, cyn y byddwn mewn sefyllfa i fynd i'r afael â'r mater sylfaenol yn yr argymhelliad. Mae argymhellion eraill yn ein hymrwymo ni a'n partneriaid i raglen waith fanwl a allai gael effaith andwyol ar y gwasanaeth a ddarperir, o gofio bod yr adroddiad yn ceisio gwneud cynnydd yn unol â'r amserlen (o fewn tri i bum mis yn aml). Felly, lle bo modd, rydym wedi darparu amserlenni amgen yn ein hymateb. Rydym wedi gwrthod nifer bach o'ch argymhellion gan nodi'r rheswm dros ei wrthod lle'r ydym wedi gwneud hynny.

Gwyddom y bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu'n ofalus ar y mater hwn a byddwn yn falch o ddarparu gwybodaeth bellach, fel y nodir mewn perthynas â rhai o'ch ymatebion, ar weithgarwch yn unol â'ch blaenoriaethau yn y dyfodol.

Byddwch cystal â diolch i'r Pwyllgor ac i bawb arall am eu rhan wrth gefnogi'ch ymchwiliad a chynhyrchu'r adroddiad terfynol.

Yn gywir

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Ymateb Llywodraeth Cymru: Cadernid Meddwl – Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Ebrill 2018

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	Argymhelliad Allweddol Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud lles a gwydnwch emosiynol a lles a gwydnwch meddwl ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol benodedig. Dylai'r statws hwn gynnwys ymrwymiad i: 1. ddarparu adnoddau digonol sydd wedi'u neilltuo i'n hysgolion ddod yn ganolfannau cymunedol o gefnogaeth draws-sector a thraws-broffesiynol ar gyfer gwydnwch emosiynol a lles meddwl. Ni all ysgolion ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn eu hunain - mae cefnogaeth asiantaethau statudol eraill a'r trydydd sector, yn enwedig iechyd, yn hanfodol; 2. sicrhau bod iechyd emosiynol ac iechyd meddwl wedi'i ymgorffori'n llawn yn y cwricwlwm newydd; 3. sicrhau bod pawb sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, sy'n gwirfoddoli, neu sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant ym maes ymwybyddiaeth o iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â stigma, hybu iechyd meddwl da a gallu dangos y ffordd at wasanaethau cymorth lle bo angen. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda chyrff proffesiynol i ymgorffori hyfforddiant mewn cymwysterau cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus; a 4. chyhoeddi adolygiad annibynnol bob dwy flynedd o'r cynnydd yn y maes hwn. Dylai'r broses hon gynnwys plant a phobl ifanc drwyddi draw.	Derbyn. Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn cydnabod iechyd meddwl fel un o'r pum prif faes sydd â'r potensial mwyaf i gyfrannu at ffyniant a llesiant hirdymor. Mae'n glir o fewn y strategaeth y bydd canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yn bodloni ein nodau uchelgeisiol o wella iechyd meddwl y genedl. Ategir hyn ymhellach yn ein strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl sy'n rhoi lle canolog i blant a phobl ifanc. **1. Derbyn mewn egwyddor** Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymrwymiadau yn Ffyniant i Bawb, sef cyflwyno model newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol, darparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cymorth rhianta, dysgu fel teulu, a mynediad cymunedol at gyfleusterau sydd ar gael o amgylch y diwrnod ysgol; a sicrhau bod ysgolion yn ysgwyddo rôl fwy amrywiol fel canolfannau cymuned, sy'n cynnig nid yn unig addysg ond peth wmbredd o weithgareddau cymunedol, gan helpu i gydgysylltu eu cymunedau a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i fwrw ymlaen â'r camau hyn a gwneud argymhellon o safbwynt nodi unrhyw rwystrau i weithredu'r camau penodol a sut i'w goresgyn, ariannu'r camau gweithredu a rhannu arferion da o ran defnydd cymunedol o asedau. Yr Adran Addysg fydd yn arwain y grŵp, gyda chynrychiolwyr polisi trawslywodraeth; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. **Goblygiadau ariannol** Cyhoeddwyd buddsoddiad cyfalaf o £15 miliwn dros gyfnod o ddwy flynedd ochr yn ochr â Chynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru a fydd yn ein galluogi i dreialu model newydd o ganolfannau dysgu cymunedol, lle bydd adeiladau ysgolion yn cael eu haddasu i greu canolfannau ('hybiau') a fydd yn sicrhau canlyniadau gwell i'r gymuned. Bydd y canolfannau yn adlewyrchu anghenion yr ardal leol ac yn darparu gwasanaethau estynedig fel gofal plant, cymorth rhianta, dysgu fel teulu a mynediad cymunedol i gyfleusterau sydd ar gael o

		amgylch y diwrnod ysgol. Hefyd, bydd y canolfannau yn cynnig amryw o weithgareddau cymunedol ac yn helpu i gydgysylltu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Bydd canlyniadau'r treialon hyn yn llywio penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen. Rydym hefyd yn datblygu gweithgareddau amrywiol er mwyn cefnogi cadernid emosiynol mewn lleoliadau ysgolion. Rydym wedi neilltuo £1.4 miliwn ar gyfer ein cynllun peilot mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn ysgolion, er mwyn profi sawl dull o gydweithio ar draws y maes addysg, y GIG a'r trydydd sector. Bydd y gwerthusiad yn 2020 yn nodi p'un ai a sut ddylem gyflwyno'r ddarpariaeth yn ehangach. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) yn cynyddu'r perygl o salwch meddwl yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ariannu Canolfan Gymorth ACE, canolfan arbenigol er mwyn cynyddu dealltwriaeth o, a helpu ac ysbrydoli unigolion, cymunedau a sefydliadau i ddysgu am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a newid eu ffordd o feddwl ac ymddygiad. Eleni, mae'r portffolios Addysg a Phlant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol yn cyd-ddarparu £400,000 tuag at y Ganolfan. Rydym hefyd yn cydweithio â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion er mwyn sefydlu digwyddiadau hyfforddiant rheolaidd i weithwyr iechyd ac addysg er mwyn meithrin dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl allweddol a meithrin perthnasau. Hefyd, mae Gweithredu dros Blant wedi cael arian grant Adran 64 (2018-19 i 2020-21) er mwyn cyflwyno iechyd emosiynol i'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol trwy gyfrwng cwricwlwm dilys sy'n seiliedig ar dystiolaeth. **2. Derbyn**. Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn unigolion iach a hyderus. Bydd y pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd ac yn fan cychwyn i'r holl benderfyniadau ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu. Felly, mae lles meddyliol ac emosiynol dysgwyr yn cael eu hystyried ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad. <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn.

		3. Derbyn mewn egwyddor. Mae'n afrealistig sicrhau bod pawb sy'n gofalu, yn gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant a phobl ifanc wedi'u hyfforddi, er ein bod am sicrhau bod gan weithwyr allweddol gyfle i gael hyfforddiant ac rydym yn ymgymryd â llu o fesurau i wneud hynny. Mae'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc wedi datblygu fframwaith i'r gweithlu (T4CYPGoodwork) sy'n disgrifio fframwaith cymhwysedd dangosol - sy'n rhoi pwyslais ar hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol, ac sy'n cael ei argymell i rai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Hefyd, mae'r fframwaith yn tynnu sylw at y cymwyseddau penodol fydd eu hangen ar fwy o weithwyr medrus, yn dibynnu ar eu rolau. Fel rhan o gynllun gwaith 2018-19, mae Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cynnig y gweithgarwch allweddol canlynol mewn perthynas â'r gweithlu, addysg a hyfforddiant: • sicrhau bod cymwyseddau'n cyd-fynd â rolau proffesiynol ac wedi'u mapio i safonau galwedigaethol cenedlaethol, a rolau staff cymorth. Ystyried sut mae cymwyseddau'n berthnasol i Grwpiau eraill fel ymarferwyr/gweithwyr o sefydliadau'r trydydd sector • ystyried gofynion y gweithlu i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol i gynnwys rôl addysg, y dull ysgol gyfan a chymorth y tu allan i ysgolion • ystyried rôl y nyrs ysgol yn ogystal â'r rolau/cymwyseddau staff gwahanol sy'n galluogi dull ysgol gyfan • datblygu fframwaith hyfforddiant a chymwyseddau craidd cenedlaethol, trawsasiantaeth ac amlbroffeisynol • datblygu cynllun gweithredu amlasiantaeth sy'n cysylltu ag Addysg Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru Bydd Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau i ddefnyddio'r fframwaith y gweithlu hwn, er na allwn fynnu bod yr holl weithwyr proffesiynol amrywiol, gwirfoddolwyr ac eraill o'r myrdd o sefydliadau sydd â chysylltiad rheolaidd â phlant a phobl ifanc yn ei ddefnyddio. Byddem hefyd yn disgwyl i'r GIG yng Nghymru a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc annog pawb i ddefnyddio fframwaith y gweithlu.

		<u>Goblygiadau ariannol</u> Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff. **4. Gwrthod.** Mae gennym gynlluniau i werthuso rhaglen beilot mewngymorth CAMHS (fel y soniwyd yn 1 uchod) a byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd yn erbyn y rhaglenni amrywiol a restrwyd uchod. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r Pwyllgor. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor pan gaiff ei chyhoeddi. <u>Goblygiadau ariannol</u> Dim.
1.	Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, fap llwybr o sut y bydd iechyd (o dan arweiniad y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc) ac addysg (o dan arweiniad Iechyd a'r maes Profiad Dysgu Iechyd a Lles) yn gweithio gyda'i gilydd i lywio'r cwricwlwm newydd. Dylai'r map llwybr hwn gynnwys cerrig milltir clir a nodi'r asiantaethau neu'r unigolion sy'n gyfrifol am eu cyflwyno.	**Derbyn mewn egwyddor** Rydym yn cydnabod bod partneriaeth rhwng rhanddeiliaid y sector iechyd a'r ysgolion arloesi sy'n datblygu ein cwricwlwm newydd yn hanfodol, yn enwedig o safbwynt Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â'r rhanddeiliaid hyn fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm hyd yma, ac roedd eu profiad, eu hymchwil a'u dealltwriaeth nhw yn amhrisiadwy o ran sicrhau ein bod ni'n defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth sy'n gallu rhoi cymorth effeithiol i ysgolion er mwyn hybu iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol da. Mae swyddogion diwygio'r cwricwlwm yn cydweithredu'n rheolaidd â chydweithwyr adran iechyd Llywodraeth Cymru mewn sawl maes, gyda threfniadau partneriaeth parhaus â'r Grŵp Plant, Arweinwyr Ysgolion Iach, Gordewdra, Gamblo, Camddefnyddio Sylweddau, Gweithgarwch Corfforol a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi mynychu a chyfrannu'n rheolaidd at grŵp datblygu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac mae DECIPHer wedi darparu adborth ysgrifenedig manwl ar "ddatganiadau beth sy'n bwysig" a'r canlyniadau cyflawni ar gyfer y Maes Dysgu hwn.

		Fel y pwysleisiodd yr Athro Donaldson yn Dyfodol Llwyddiannus, mae is-gorff yn elfen allweddol o'n system addysg yma yng Nghymru, gyda pherchenogaeth a phenderfyniadau yn cael eu buddsoddi yn y rhai sydd agosaf at y broses ddysgu ac addysgu. Felly, y rhwydwaith o ysgolion arloesi sydd wedi gweithio gydag arbenigwyr, academyddion a'r consortia addysg rhanbarthol dros y 12 mis diwethaf, i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Bydd y dull hwn hefyd yn ymestyn i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd, gydag arloeswyr dysgu proffesiynol yn profi'r cwricwlwm drafft â'r rhwydwaith ysgolion ehangach o'r hydref ymlaen. Wedi hynny, gallwn ddechrau nodi a mynd i'r afael ar unwaith â'r blaenoriaethau dysgu proffesiynol a gweithio gyda'r rhanbarthau ac arloeswyr er mwyn creu cyfleoedd ymgysylltu ehangach trwy ein dull cenedlaethol. Trwy'r broses hon felly, bydd angen nodi pa gyfraniad ychwanegol y bydd Arloeswyr Dysgu Proffesiynol ei angen gan randdeiliaid, gan gynnwys y rheini o'r sector iechyd. Gan mai nodi anghenion datblygu'r cwricwlwm newydd a'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg yw diben y broses hon, ni fydd modd cyflwyno cynlluniau ymgysylltu ffurfiol ar hyn o bryd. Er hynny, byddwn yn sicrhau bod y sector iechyd yn rhan o unrhyw gymorth a ddarperir i ysgolion arloesi wrth inni fwrw ymlaen â'r broses ddatblygu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiad y cwricwlwm newydd ar gael trwy wefan Llywodraeth Cymru. Hefyd, gall sefydliadau 'ddilyn' blog Cwricwlwm Cymru, sy'n cynnwys cipolwg a phersbectif rheolaidd a datblygiadau'r cwricwlwm yn www.cwricwlwmigymru.llyw.cymru Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ysgrifennu at y pwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed yn y maes (dros y flwyddyn aeth heibio) a chyflwyno rhagor o wybodaeth am Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydweithio i'r eithaf, byddai gennym ddiddordeb mewn unrhyw ddiweddariadau y gallai Law yn Llaw at Blant neu randdeiliaid eraill rannu gydag

		arloeswyr y cwricwlwm a dysgu proffesiynol wrth iddyn nhw ddatblygu ein system addysg newydd. <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff.
2	Bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o wella mesur lles mewn ysgolion o fewn y fframwaith arolygu er mwyn llywio gweithgareddau a pherfformiad. Dylai'r gwaith o ddatblygu'r mesurau hyn gynnwys pob rhanddeiliad perthnasol i sicrhau eu bod yn addas at y diben ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Yn bwysicaf oll, dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r broses o baratoi'r mesurau hyn i sicrhau eu bod yn gofnod cywir o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu lles. Dylai'r mesurau hyn fod ar gael o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, neu fod yn rhan o adroddiad yr adolygiad annibynnol o oblygiadau'r rhaglen ddiwygio addysgol yng Nghymru ar gyfer rôl Estyn yn y dyfodol, pa un bynnag yw'r cynharaf.	**Derbyn mewn egwyddor** Rydym yn falch fod Estyn wedi cryfhau'r pwyslais ar les emosiynol yn y trefniadau arolygu newydd. Mae arolygwyr nawr talu sylw arbennig i les emosiynol dan 2.1 Lles, 2.2. Agweddau at Ddysgu, 4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu a 4.2 Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol). Mae'r canllawiau arolygu ar gyfer pob sector i'w cael ar wefan yr Arolygiaeth www.estyn.gov.uk. Mae arweiniad manylach ar gael i arolygwyr yn y canllawiau atodol ar fyw'n iach. Rydym wedi gofyn i Estyn weithio gydag OECD i gydarwain prosiect ar ddatblygu adnodd cynllunio hunanwerthuso a gwella ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Fel rhan o'r prosiect hwn, bydd Estyn a'r OECD yn gweithio gydag ysgolion, plant a phobl ifanc a phartneriaid eraill i nodi sut gall ysgolion fesur a gwerthuso lles yn effeithiol. Bydd hyn yn cefnogi camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl' sef "cydweithio â phartneriaid, yng Nghymru a thu hwnt, ar ffyrdd effeithiol o fesur lles dysgwyr" erbyn hydref 2018. Hefyd, mae'r Schools Health Research Network (SHRN) yn dod ynghyd ag ysgolion uwchradd ac ymchwilwyr academaidd, llunwyr polisïau ac ymarferwyr iechyd, addysg a gofal cymdeithasol er mwyn gwella iechyd a lles pobl ifanc yn yr ysgol. Mae pob ysgol yn y rhwydwaith yn llenwi arolwg dwyieithog electronig ar iechyd a lles myfyrwyr bob dwy flynedd. Mae'r arolwg yn seiliedig ar arolwg cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Ymddygiad Iechyd Plant oed Ysgol (HBSC) er mwyn caniatáu ar gyfer cyfuno'r ddau arolwg bob pedair blynedd, ac mae wedi'i ategu gan Holiadur Amgylchedd yr Ysgol, sy'n rhoi cyfle i ymchwilio i'r berthynas rhwng polisïau ac arferion ysgolion ac iechyd myfyrwyr. Mae cyfle i

		ysgolion sy'n ymuno â'r Rhwydwaith dderbyn adroddiad ar iechyd a lles myfyrwyr unigol bob dwy flynedd, sy'n darparu data ar bynciau iechyd emosiynol a chorfforol allweddol, a gall ysgolion eu defnyddio ar gyfer eu hunanwerthusiadau a'u defnyddio mewn arolygon gan Estyn. Mae gweithdai amlasiantaeth Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc wedi datblygu nifer o ddangosyddion a fyddai'n adlewyrchu iechyd meddwl da unigolion a gwasanaethau ym marn ymarferwyr a phobl ifanc. Mae cyd-ddealltwriaeth o'n canlyniadau a'n sylfaen ddamcaniaethol yn allweddol i hyn. Ymddengys bod cyfuno agweddau allweddol Plant Iach Cymru, agenda ACE a gofal gwybodus Trauma yn rhoi trosolwg o'r modd rydyn ni'n magu plant yng Nghymru – byddai hyn yn allweddol, a gellir ei wneud yn drawsadrannol. Bydd swyddogion yr Adrannau Iechyd ac Addysg, ynghyd â'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn, a byddwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn yr hydref. <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff.
3	Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl fentrau lles emosiynol a meddyliol sydd ar waith yn ysgolion Cymru, gyda'r bwriad o argymell dull cenedlaethol i ysgolion ei fabwysiadu, yn seiliedig ar arfer gorau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ysgolion enghreifftiol fel Ysgol Pen y Bryn ym Mae Colwyn i ddatblygu elfennau o'r dull cenedlaethol hwn, gan gynnwys ymwybyddiaeth ofalgar, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn.	**Derbyn mewn egwyddor** Mae ymyriadau lu ar gael i ysgolion i helpu gydag iechyd a lles emosiynol, ac ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar anghenion eu disgyblion. Bydd strategaethau, rhaglenni a dulliau ymyrryd wrth reswm yn amrywio o ysgol i ysgol, gan adlewyrchu eu cyd-destunau, eu poblogaethau dysgwyr ac anghenion gwahanol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod yn heriol i ysgolion ddewis y rhaglen fwyaf briodol i'w hanghenion. Mae'r Early Intervention Foundation (EIF) wedi sgorio'r dystiolaeth o effaith rhaglenni amrywiol, ac wedi paratoi llawlyfr, fel y gall ysgolion nodi pa raglen sydd fwyaf addas i'w hanghenion nhw. Mae wedi'i adolygu yn ffrwd waith T4CYP hefyd. http://guidebook.eif.org.uk/ Rydym yn cydnabod nad yw o bosib wedi'i hyrwyddo cystal ag y gallai i'r ysgolion, felly, mewn ymateb i bryderon y Pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r llawlyfr EIF trwy e-gylchgrawn Dysg a anfonir i ysgolion.

		Hefyd, mae'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc wedi creu rhestr o ymyriadau addysg seiliedig ar dystiolaeth er mwyn hyrwyddo hyn. Mae cyd-ddealltwriaeth o'r canlyniadau a'r dibenion gorau yn allweddol er mwyn defnyddio'r adnoddau gorau, fel y nodir yn argymhelliad dau. Yn 2015, cafodd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (PPIW) ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth o ba ymyriad, neu ymyriadau, a fyddai'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol, o gofio'r oedran a'r cyd-destun, ar blant mewn ysgolion cynradd yn nhermau cefnogi eu hiechyd a'u lles emosiynol. Roedd casgliadau'r gwaith hwn yn awgrymu nad oes ateb syml i'w gael. Mae yna amrywiaeth o raglenni o'r radd flaenaf sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n darparu arweiniad ac adnoddau gwych er mwyn cefnogi gweithgareddau ysgol yn y maes hwn. Ond, hyd yn oed lle mae'r sail dystiolaeth ar gyfer y rhaglen yn gryf iawn, does dim sicrwydd y bydd cyflwyno'r rhaglen yn cael effeithiau cadarnhaol a chynaliadwy ar blant. Beth sy'n bwysig yw'r modd y caiff rhaglen ei rhoi ar waith, ac mae hwn yn faes lle mae dull ysgol gyfan yn allweddol. Mae'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS) yn cynnig ffordd o ymgorffori'r dull ysgol gyfan hwnnw. Mae'r cynllun yn hyrwyddo, yn diogelu ac yn sefydlu iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol y gymuned trwy gymryd camau cadarnhaol. Mae ysgolion sy'n anelu at Ddyfarniad Ansawdd Cenedlaethol WNHSS yn ystyried gweithredu dull ysgol gyfan ar gyfer pob math o bynciau iechyd, gan gynnwys iechyd a lles meddyliol ac emosiynol. Goblygiadau ariannol Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff.
4	Bod Llywodraeth Cymru, wrth ymgymryd â'r adolygiad yr ydym yn galw amdano yn argymhelliad 3, yn gweithio yn y cyfamser gyda'r Samariaid i ddatblygu eu Rhaglen Datblygu Ymwybyddiaeth Emosiynol a Gwrando (DYEG) i'w defnyddio'n ehangach mewn	**Derbyn mewn egwyddor** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod adnoddau cyfredol DYEG ar gael ar wefan Hwb ac yn cael eu hyrwyddo trwy e-gylchgrawn Dysg. Yn sgil adroddiad y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Samariaid, a bydd yn estyn gwahoddiad iddyn nhw drafod sut y gallem fwrw ymlaen â rhai o argymhellion yr adroddiad.

	ysgolion yng Nghymru. Yn amodol ar ganlyniadau'r gwerthusiad o'r Rhaglen, sydd ar y gweill, dylai Llywodraeth Cymru roi arian i ymestyn y rhaglen i'r sector ysgolion cynradd.	Fodd bynnag, mae amrywiaeth o raglenni dysgu cymdeithasol ac emosiynol wedi'u gwerthuso'n dda ar gael, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu cymeradwyo rhaglen benodol. Yn arbennig, os byddwn yn ariannu'r gwaith o ddatblygu rhaglen benodol, byddai hyn yn creu cynsail a gall godi disgwyliadau y byddem yn talu am ddatblygu rhaglenni eraill hefyd. Roedd gwaith y Samariaid hefyd yn elfen allweddol o'r adnoddau sy'n cael eu datblygu i'w defnyddio gan ysgolion mewn achosion o hunan-niweidio a hunanladdiad – gweler argymhelliad 16. <u>Goblygiadau ariannol</u> Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff.
5	Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith mapio i ganfod argaeledd staff nad ydynt yn addysgu mewn ysgolion i gefnogi iechyd a lles emosiynol ac iechyd meddwl, a'r lefel ddisgwyliedig o angen yn y dyfodol. Dylai'r gwaith hwn amlinellu sut i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion	**Derbyn mewn egwyddor** Mater i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yw sicrhau bod ganddyn nhw weithlu priodol er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardal nhw. Mewn ymateb i gasgliadau'r Pwyllgor, byddwn yn ysgrifennu at fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ar fater cynllunio'r gweithlu a'u gallu o ran cwnselwyr annibynnol, seicolegwyr addysg, cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol, therapyddion a nyrsys ysgol. Cafodd y fframwaith diwygiedig ar **nyrsys ysgol** ei lansio ym mis Mai 2017, ac mae'n cyflwyno fframwaith Llywodraeth Cymru ar nyrsio mewn ysgolion yn ddiogel, sy'n hygyrch ac o safon uchel. Mae rôl y Nyrs Ysgol yn hollbwysig o ran cynnal lles emosiynol plant a phobl ifanc. Trwy ymgynghori â Nyrsys Ysgol ac mewn partneriaeth â ffrydiau gwaith T4CYP, cynhaliwyd dadansoddiad o rôl Nyrsys Ysgol yn yr agenda bwysig hon ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu safonau o fewn y fframwaith. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer hyfforddiant pellach mewn perthynas â'r safon hon. Dan y gyfraith, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig darpariaeth gwasanaethau **cwnsela** i bob person ifanc 11-18 oed yn eu hardal, ac i holl ddisgyblion blwyddyn 6. Mae

		Llywodraeth Cymru wrthi'n adnewyddu ei hadnoddau cwnsela. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cwrdd â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a gwasanaethau cwnsela, ac roedd ein trafodaethau yn cynnwys profiad a chymwysterau cwnselwyr. Mae hyn wedi llywio ein sefyllfa, sef y dylai pob cwnselydd sydd wedi'i benodi i weithio gyda phobl ifanc gael cymhwyster cydnabyddedig ffurfiol mewn cwnsela a gweithio o fewn y gofynion diogelu angenrheidiol. Felly, dylai cwnselwyr ddangos datblygiad proffesiynol parhaus ac adolygu eu hymarfer. Gall hyn fod trwy broses achredu, neu os nad ydynt wedi'u hachredu, dylai cwnselwyr ddangos tystiolaeth o'u cymhwysedd, sgiliau a phrofiad fel tystiolaeth o gynllun hyfforddi a datblygiad proffesiynol parhaus cyfredol, tystiolaeth o adolygiadau blynyddol, tystiolaeth o oruchwylio, adborth gan blant/pobl ifanc, gwybodaeth am ganlyniadau'r plant/pobl ifanc a gwnselwyd ganddynt. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adnodd diwygiedig pan gaiff ei gyhoeddi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl bwysig **Seicolegwyr Addysg** wrth helpu dysgwyr mewn addysg. Er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o seicolegwyr addysg, rydym yn ariannu Prifysgol Caerdydd i gyflwyno'r rhaglen hyfforddiant proffesiynol Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol. Yn 2017, comisiynwyd Uned Ddata Cymru i gasglu data ar weithlu gwasanaethau arbenigol awdurdodau lleol, a oedd yn cynnwys seicolegwyr addysg, a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff.
6	Bod Llywodraeth Cymru yn asesu ansawdd y cwnsela statudol sydd ar gael mewn ysgolion, yn enwedig sut mae'r gwasanaeth yn ymdopi â'r galw cynyddol, yn mynd i'r afael â stigma ac yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Dylai hyn gynnwys ystyried darparu cymorth cwnsela ar-lein a'r tu allan i wersi / ysgol, ac i'r rheini sy'n iau nag 11 oed.	**Derbyn mewn egwyddor** Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu darpariaeth cwnsela statudol yn wasanaeth o safon sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardal. Ers 2013, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig darpariaeth gwnsela resymol i bob person ifanc 11-18 oed yn eu hardal, ac i bob disgybl Blwyddyn 6. Ar yr un pryd, cafodd arian ei drosglwyddo i Grant Cymorth Refeniw awdurdodau lleol er mwyn parhau i gefnogi'r gwasanaeth hwn. Gall awdurdodau lleol ddewis darparu'r gwasanaeth yn fewnol neu ei roi ar gontract, ond y naill ffordd neu'r llall, mae disgwyl i'r gwasanaeth fod o ansawdd uchel. Rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol i ddiweddaru'r Pecyn Cymorth Cwnsela, a bydd y fersiwn ddiwygiedig yn cyflwyno disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch agweddau

		gwahanol ar ddarparu'r gwasanaeth. Does dim gofyniad i ddarparu cwnsela i ddisgyblion Blwyddyn 5 ac is ar hyn o bryd, a beth bynnag, efallai y bydd plant iau angen math gwahanol o ymyrraeth i therapi siarad (e.e. therapi chwarae, cwnsela teuluol). Roedd 'Gwerthusiad o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru' (2011) yn nodi bod y dystiolaeth o'r broses, neu ganlyniadau, cwnsela mewn ysgolion cynradd yn gyfyngedig, er bod lefelau bodlonrwydd y penaethiaid ac arweinwyr awdurdod lleol o'r cynlluniau peilot yn uchel. Roedd adroddiad PPIW ar iechyd a lles emosiynol plant mewn ysgolion cynradd yn ystyried y dystiolaeth ar gwnsela disgyblion oedran cynradd ac yn dweud bod nifer y plant sy'n mynychu sesiynau cwnsela un i un yn anghymesur (o gymharu â'r boblogaeth ysgol leol): rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, wedi'u cofrestru fel rhai ag anghenion addysgol arbennig, ac ar gynllun amddiffyn plant. Fel rhan o'n hymgynghoriad ehangach o sut gallem ni gefnogi iechyd meddwl plant oedran cynradd, bydd angen i ni ystyried effeithiau'r amgylcheddau sy'n '*render children's failure to thrive more likely*'[1]. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu data i Lywodraeth Cymru am eu darpariaeth gwnsela hefyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu gweithgor o gynrychiolwyr awdurdodau lleol i drafod gwelliannau i ddata ar gwnsela, gan gynnwys ystyried cyflwyno data i Lywodraeth Cymru ar adborth defnyddwyr gwasanaethau. (Mae awdurdodau lleol eisoes yn casglu adborth defnyddwyr gwasanaethau i lywio datblygiad parhaus gwasanaethau cwnsela yn eu hardaloedd). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth cwnsela ar safle pob ysgol uwchradd a gynhelir ganddynt, ac mae'r rhan fwyaf yn cynnig gwasanaethau cwnsela mewn lleoliadau eraill bellach fel llyfrgelloedd, canolfannau cymuned ac adeiladau eraill sy'n eiddo i'r cyngor – pryd bynnag mae'n briodol ac ymarferol gwneud hynny. Ar hyn o bryd, mae 6 awdurdod lleol – Powys, Blaenau Gwent, Casnewydd, RhCT ac Abertawe yn cynnig **cwnsela ar-lein** i ategu'r ddarpariaeth gwnsela wyneb yn wyneb. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar-lein ar hyn o bryd.

[1] Howard et al., 1999, *Childhood Resilience: Review and critique of the literature*, t. 8

		Yn dilyn hyn, ac yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, byddwn yn ystyried y ffordd orau o sicrhau adnoddau ar-lein cenedlaethol sy'n ategu'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb cyfredol, ar ôl ystyried yr angen am ddiogelwch digidol a diogelu data; y protocolau a'r mecanweithiau technegol er mwyn cefnogi cleientiaid mewn argyfwng; ystyriaethau ar gyfer ystod oed y cleientiaid a sut gellir gorfodi hyn; a recriwtio cwnselwyr medrus a phrofiadol ar-lein. Fel rhan o'r rhaglen waith ehangach dan Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i gynyddu mynediad at therapïau seicolegol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi meithrin cysylltiadau â Digital Health England sy'n adolygu'r adnoddau ar-lein i blant a phobl ifanc. Hefyd, mae'r National Psychological Therapies Management Committee yn cynnwys adolygiadau o'r ddarpariaeth therapi ar-lein a'r drefn lywodraethu fel rhan o'i waith. <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae costau ychwanegol ynghlwm wrth werthuso'r ddarpariaeth ar-lein gyfredol, a bydd angen pennu hyd a lled y costau hyn. Daw'r costau o adnoddau ychwanegol i gefnogi therapïau seicolegol (cyllideb iechyd).
7	Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad dros dro i wasanaethau iechyd ac addysg (a chyrff statudol perthnasol eraill) am y gefnogaeth y dylent ei darparu ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl mewn ysgolion. Dylai hyn nodi'r gefnogaeth y dylent ei ddisgwyl oddi wrth ei gilydd fel gwasanaethau statudol. Dylai'r arweiniad hwn barhau ar waith, a dylai gael ei ariannu'n ddigonol, hyd nes y caiff canfyddiadau'r cynlluniau peilot mewngymorth eu cyfleu i ni ac i eraill. Dylai'r arweiniad gael ei gyhoeddi cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad a'i adolygu ar ôl i'r rhaglenni peilot mewngymorth ddod i ben.	**Derbyn mewn egwyddor** Byddwn yn cyflwyno datganiad o ddisgwyliadau i bartneriaid statudol ac eraill, sy'n nodi'n cyfeiriad ni, pa gymorth sydd ar gael neu wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd angen mwy na thri mis i baratoi map cynhwysfawr o'r holl feysydd gwahanol, ond byddwn yn anelu at gyflwyno hyn cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd yn adeiladu ar ganllawiau sy'n bodoli'n barod a/neu weithgarwch sydd eisoes ar waith er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol effeithiol a phriodol mewn ysgolion: • cydweithrediad 2016 rhwng CAMHS a gwasanaethau cwnsela awdurdod lleol, sy'n cynnwys manylion ar reoli atgyfeiriadau, protocolau lleol a llwybrau atgyfeirio • rhoi cyllid i Gweithredu dros Blant fynd ati i ddarparu'r ymyriad ar sail tystiolaeth, The Mental Health and High School Curriculum Guide, mewn ysgolion dros y tair blynedd nesaf. • gwaith mewngymorth CAMHS mewn ysgolion, yr ydym yn buddsoddi £1.4m ynddo.

		• cyflwyno'r fframwaith nyrsys ysgol newydd i Gymru. • newidiadau i'r cwricwlwm a datblygu Meysydd Profiad Dysgu • datblygu polisi wedi'i lywio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff.
8	Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal cynllun peilot o rôl "athro cyfarwyddyd" yng Nghymru, neu fabwysiadu model arall sy'n dyrannu cyfrifoldeb dros iechyd emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion i aelod arweiniol o staff addysgu neu staff nad ydynt yn addysgu.	**Derbyn mewn egwyddor** Hoffem roi dull ysgol gyfan ar waith i gefnogi lles plant a phobl ifanc, yn seiliedig ar y ffaith fod pob aelod staff mewn ysgol yn deall eu cyfraniad at gefnogi lles eu dysgwyr, ac yn deall bod iechyd meddwl cadarnhaol y dysgwyr yn rhan annatod o'u lles cyffredinol. Mae perygl i'r rôl "athro cyfarwyddyd" olygu bod materion lles yn cael eu hymddiried yn llwyr i un aelod o'r staff yn unig, yn hytrach na'i fod yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu gan holl staff yr ysgol, fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan at les. (Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 3, credwn fod gan WHNSS ran allweddol i'w chwarae wrth sefydlu'r dull ysgol gyfan hwnnw). Gwyddom o ymchwil diweddar ar ffynonellau cydnerthedd mewn perthynas â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, pa mor bwysig yw'r berthynas ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo ym mywyd plentyn neu berson ifanc ar gyfer canlyniadau iechyd meddwl cadarnhaol. Gall unrhyw aelod o staff yr ysgol honno fod yn oedolyn y gellir ymddiried ynddo y mae'r plentyn yn troi ato, felly mae angen i bob aelod o'r staff fod yn barod i fod yr unigolyn caredig, llawn empathi hwnnw, sy'n barod i wrando ar blentyn neu berson ifanc mewn trallod. Er mwyn helpu'r ethos lles ehangach hwnnw, byddwn yn argymell bod cyrff llywodraethu ysgolion yn cynnwys llywodraethwr sydd hefyd yn hyrwyddwr lles. Byddwn yn datblygu'r cynnig hwn ymhellach mewn partneriaeth â chynrychiolwyr cyrff llywodraethu a swyddogion cefnogi llywodraethwyr.

		<u>Goblygiadau ariannol</u> Mae'r gwaith eisoes ar droed. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, heblaw am adnoddau staff.
9	Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cynnydd o ran data rheoli mewn perthynas ag amseroedd aros gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (LPMHSS) ar gyfer asesu ac ymyrraethau ar gyfer plant a phobl ifanc ers cychwyn darpariaethau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ar gael.	<u>Gwrthod</u> Mae data Mesur Rhan 1 am atgyfeiriadau am asesiad LPMHSS, amseroedd aros am asesiad ac amseroedd aros am ymyriad therapiwtig wedi'i gyhoeddi ers mis Ebrill 2013. Dim ond yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gallu gwahaniaethu rhwng oedrannau ac rydym, yn ymwybodol o broblemau ansawdd data posib o ran data pobl ifanc dan 18 oed. Rydym yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i archwilio maint y broblem a pha gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod data'r dyfodol yn gadarn. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith gydag Uned Gyflenwi'r GIG a Rhwydwaith Cynllunio CAMHS i brofi pa mor ddibynadwy yw mesurau cyfredol. Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2018, byddwn yn ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gyhoeddi'r wybodaeth hon ar lefel leol.
10	Bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gwella ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol (LPMHSS) lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Dylai hyn ddarparu asesiad o'r lefelau presennol o ddarpariaeth, y galw a ragwelir am wasanaethau dros y 5-10 mlynedd nesaf, a'r lefel amcangyfrifedig o adnoddau sydd eu hangen i uno'r ddau. Dylai hefyd amlinellu sut y bydd LPMHSS yn ymgysylltu â gwasanaethau statudol a thrydydd sector eraill, ac yn darparu'r gwasanaethau cymorth canolraddol mwyaf hygyrch, priodol ac amserol i gau'r bwlch rhwng cymorth ar gyfer gwydnwch emosiynol ar y naill law, a CAMHS arbenigol ar y llall. Dylai'r cynllun gwella amlinellu'n glir y llwybrau sydd ar gael i blant a phobl ifanc fel bod y mynegbyst i bob lefel o wasanaeth, a rhyngddynt, yn fwy eglur ac yn symlach.	<u>Derbyn</u> Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn ymhellach ar ôl cwblhau'r gwaith a gomisiynwyd drwy Uned Gyflenwi'r GIG i ddadansoddi CAMHS gofal sylfaenol, gan ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid, er mwyn gwerthuso'r gallu a'r galluogrwydd i ateb y galw. Bydd hyn yn cynnwys: • penderfynu ar lefel twf y gweithlu dan 18 oed ers cyflwyno'r Mesur a buddsoddiad ychwanegol Llywodraeth Cymru. • pa dystiolaeth sy'n bodoli o'r camgymhariad hwn rhwng galw a gallu. • a oes amrywiaeth rhwng gwasanaethau a pherfformiad, ac os felly, faint o amrywiad sydd a beth yw'r goblygiadau o ran rhestrau aros a'r llif i mewn ac allan o wasanaethau Bydd hyn yn ein galluogi i benderfynu a oes unrhyw weithgarwch "cudd" yn bodoli. Bydd gweithgarwch hefyd yn cael ei lywio gan adolygiad cymheiriaid CAMHS ar wahân y byrddau iechyd lleol o CAMHS gofal sylfaenol, a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn a haf 2018. Bydd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cefnogi'r gwaith hwn, a fydd yn:

	Dylai gyfeirio'n benodol at sut y dylai LPMHSS gysylltu ag ysgolion.	• cytuno ar gyfres o egwyddorion arferion gorau ar gyflenwi gwasanaethau plant a phobl ifanc; • datblygu ail rifyn o'r Cyfeiriadur Arferion Gorau sy'n tynnu sylw at waith cenedlaethol i ystyried bwlio corfforol a seibrfwlio a mentrau sy'n rheoli achosion o hunan-niweidio a gorbryder; • datblygu canllawiau ar ymateb y gwasanaeth i hunan-niweidio yn y gymuned, a phrofi gyda Grwpiau agored i niwed/timau CAMHS (gan gysylltu â gwaith cenedlaethol *Siarad â Fi)* • cytuno ar fatrics perfformiad a chynllun gweithredu ar LPMHSS i blant; • penderfynu ar ffyrdd effeithiol o raeadru arferion gorau sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu gan ysgolion arloesi ac ysgolion eraill fel rhan o waith diwygio addysg; • datblygu rhaglen hyfforddi/codi ymwybyddiaeth systematig er mwyn cynnwys arferion gorau ym Myrddau Partneriaeth Lleol/Rhanbarthol gan sicrhau gwaddol o fagu cydnerthedd ledled Cymru. <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae adolygiad y DU, adolygiad cymheiriaid, gwaith y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a gwaith yr Isgadeirydd eisoes wedi'u hystyried mewn rhaglenni gwaith cyfredol.
11	Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau: 1. bod llwybrau cyson ar gyfer pob gwasanaeth CAMHS arbenigol, yn seiliedig ar y meini prawf atgyfeirio cenedlaethol – unwaith y cytunir arnynt – yn cael eu gweithredu gan bob bwrdd iechyd (ac asiantaethau cysylltiedig lle bo hynny'n berthnasol) yng Nghymru o fewn chwe mis i'r adeg y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi; 2. Bod safonau diffiniedig yn cyd-fynd â phob llwybr er mwyn gallu mesur pob bwrdd iechyd a'u meincnodi'n gyson; a 3. Bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel bod modd dwyn byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i gyfrif am berfformiad mewn ffordd dryloyw a	(1/2) <u>Derbyn</u> Mae llwybrau gofal, sy'n cynnwys safonau gofal a meini prawf atgyfeirio cenedlaethol y cytunwyd arnynt, wedi'u datblygu mewn perthynas â gofal mewn argyfwng, ymyrraeth gynnar mewn seicosis, anhwylderau bwyta a hunan-niweidio. Mae'r gwaith ar lif gwaith niwroddatblygiadol y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn dal i fynd rhagddo, mewn perthynas â chyflyrau niwroddatblygiadol. Bydd y Rhaglen, mewn cydweithrediad â Rhwydwaith CAMHS a WHSSC, yn parhau i adolygu'r angen am unrhyw lwybrau pellach a mabwysiadu llwybrau cyfredol gan fyrddau iechyd, fel sy'n briodol. Mae cynllun gwaith Rhaglen 2018-19 yn cynnwys cynigion i ddatblygu'r Fframwaith Gwella ymhellach i gynnwys llwybr gofal cleifion mewnol a hunan-niweidio; rhywedd; anableddau dysgu a nam ar y synhwyrau a nam corfforol. Hefyd, bydd yn cyhoeddi canllawiau ar gyswllt seiciatrig; atgyfeirio; cynllunio gofal a thriniaeth ac ymyriadau seicolegol; ynghyd â Chyfeiriadur Gwasanaethau Lleol; a model mewngymorth cadarn i Gymru benbaladr. Mae gwaith ar droed i wella'r wybodaeth a gesglir am wasanaethau pobl ifanc. Mae

	gwybodus.	Fframwaith y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cynnwys mesurau ansoddol awgrymedig a chanlyniadau. Mae mabwysiadu model CAPA ar draws gwasanaethau CAMHS yn annog pawb i fabwysiadu mesurau canlyniadau. Bydd hyn o gymorth i lywio a dangos tystiolaeth o safonau perfformiad y dyfodol, fel y bydd cynnwys gwasanaethau Cymru yn ymarferion meincnodi blynyddol cenedlaethol y DU (gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad 14). Bydd holl wasanaethau CAMHS y GIG yng Nghymru yn parhau i gymryd rhan yng ngwaith meincnodi blynyddol y GIG yn y DU sy'n monitro'r gweithlu, cyllid, y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r data ar weithgarwch. (3) Gwrthod Mater i fyrddau iechyd yw penderfynu pa wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi'n lleol, er y byddem yn disgwyl i'r wybodaeth hon fod ar gael yn gyhoeddus ar lefel bwrdd iechyd lleol naill ai trwy'r Bwrdd Partneriaeth lleol neu lwybr arall. Byddwn yn cynnwys diweddariad am waith byrddau iechyd yn y maes hwn yn adroddiad blynyddol nesaf Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Goblygiadau ariannol Rheoli o fewn adnoddau cyfredol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Iechyd Lleol.
12	Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu fel mater o frys, ac o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y grŵp o blant a phobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer CAMHS arbenigol a lle nad oes gwasanaethau eraill ar gael iddynt – y "canol coll". Dylai hyn gynnwys 1. Y camau manwl y bydd yn eu cymryd yn ystod y chwe mis nesaf i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a bod asiantaethau perthnasol yn cael eu dwyn i gyfrif am roi'r camau ar waith; a 2. Rhoi cyfrif o'r ystyriaeth a roddwyd i ganolbwyntio'r meini prawf atgyfeirio ar lefelau'r trallod a ddioddefir gan blant a phobl ifanc (gall ei ffynhonnell fod yn ymddygiadol, yn gymdeithasol	(1) Derbyn (gweler argymhelliad 10 hefyd). Mae meini prawf atgyfeirio y cytunwyd arnynt ar gyfer LPMHSS a CAMHS arbenigol wedi'u datblygu gan y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a fydd, ynghyd â Rhwydwaith Cynllunio CAMHS, yn monitro'r broses o weithredu ac olrhain pobl ifanc drwy'r system. Bydd gwaith meincnodi CAMHS a datblygu set ddata genedlaethol graidd hefyd yn helpu i lywio gweithgarwch, tra bod ffrwd waith Cydnerthedd ac Ymyrraeth Gynnar y Rhaglen yn anelu at bennu diffiniad o lesiant y gellir ei ddefnyddio gan wasanaethau i dargedu ymyriadau priodol ar bob lefel o ddarpariaeth y gwasanaethau a hyrwyddo'r syniad o integreiddio gwasanaethau. Bydd hyn yn sail i amcanion y Rhaglen o gytuno ar egwyddorion arferion gorau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau plant a phobl ifanc fel y nodir yn (10). Fodd bynnag, mae'r gwaith yn debygol o bara'n hirach na'r chwe mis arfaethedig. (2) Gwrthod Mae trallod yn ddangosydd ar gyfer cymorth a chyswllt, ond ni all fod yn brif ystyriaeth a rhaid ei drin fel un o nifer o ffactorau sy'n penderfynu pa wersi sydd fwyaf priodol i anghenion person ifanc. Gallai canolbwyntio ar drallod yn unig arwain at ddarparu

	[gan gynnwys anhwylderau sy'n gysylltiedig ag ymlyniad] a / neu'n feddygol ei natur), yn hytrach nag ar sail diagnosis a ddiffinir yn feddygol yn unig.	gwasanaethau anghymesur ac mae mesur trallod yn aml yn fater goddrychol ac yn dibynnu ar safbwyntiau eraill yn hytrach na'r person ifanc ei hun. <u>Goblygiadau ariannol</u> Mae adolygiad y DU, adolygiad gan gymheiriaid, gwaith y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a gwaith yr Isgadeirydd wedi'u hystyried mewn rhaglenni gwaith cyfredol.
13	Bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun adfer ar unwaith ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynd i'r afael â'r amseroedd aros annerbyniol o hir a wynebir gan dros 1000 o blant a phobl ifanc.	<u>Derbyn mewn egwyddor</u> Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gofyn iddynt gyflwyno cynllun adfer er mwyn sicrhau bod gwasanaethau niwroddatblygiadol yn gallu bodloni'r targed 26 wythnos disgwyliedig erbyn mis Rhagfyr 2018. Ar ben hynny, mae ffrwd waith niwroddatblygiadol y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i wella'r ddarpariaeth ac wedi cytuno ar flaenoriaethau datblygu niwroddatblygiadol ar gyfer 2018-2021, sy'n cynnwys cefnogi gwelliannau i wasanaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol trwy helpu i sefydlu a monitro sylfeini'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer darparu llwybr gofal niwroddatblygiadol. <u>Goblygiadau ariannol</u> Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol – mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i ystyried mewn rhaglenni gwaith cyfredol.
14	Bod Llywodraeth Cymru, cyn pen chwe mis o ddyddiad yr adroddiad hwn, yn blaenoriaethu gwaith i sicrhau bod mesurau perfformiad ansoddol yn cael eu datblygu law yn llaw â'r data presennol am yr amser aros rhwng atgyfeirio ac asesu. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd fel y gellir dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau a pherfformiad.	<u>Cytuno</u> Mae'r gwaith o wella'r wybodaeth a gesglir am wasanaethau pobl ifanc ar droed, ond nid oes modd ei gwblhau o fewn yr amserlen a nodwyd. Mae Fframwaith Gwella y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn awgrymu mesurau ansoddol a chanlyniadau. Mae gweithredu modelau CAPA ar draws gwasanaethau CAMHS yn annog pawb i fabwysiadu mesurau canlyniadau. Mae Rhwydwaith Cynllunio CAMHS hefyd yn gweithio i sefydlu data sylfaenol o bob ardal. Bydd hwn yn cael ei gynnwys o fewn set ddata craidd iechyd meddwl ac anableddau dysgu Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn gyson, ac yn helpu i wella gwaith cynllunio a gwerthuso. Unwaith y bydd wedi'i gweithredu gan fyrddau iechyd a'i phrofi i sicrhau ei bod yn gadarn, bydd y wybodaeth hon ar gael yn

		gyhoeddus. Bydd gan Gymru wybodaeth llawer gwell am bwy sy'n cyrchu gwasanaethau, eu profiad gydol y gwasanaeth, a'r canlyniadau unigol. Wrth i'r gwaith ddatblygu, byddwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddiwedd 2018 am y cynnydd. Byddwn hefyd yn talu sylw penodol i'r ddarpariaeth Haen 4 a mabwysiadu'r mesurau canlyniadau er mwyn darparu gwybodaeth ansoddol a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau gan lywio gweithgarwch. Y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a WHSSC fydd yn arwain y gwaith hwn, gan ymroi i gynnwys cyrff sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth ifanc. <u>Goblygiadau ariannol</u> Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol – mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i ystyried mewn rhaglenni gwaith cyfredol.
15	Bod Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, mewn perthynas â gofal argyfwng a gofal y tu allan i oriau: 1. Yn gweithio gyda heddluoedd Cymru i ystyried model brysbennu ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n sicrhau bod ymarferwyr iechyd meddwl ar Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru 101 gael yn ystafelloedd rheoli'r heddlu i roi cyngor pan fydd plant a phobl ifanc (a Grŵpiau oedran eraill, os yn briodol) yn wynebu argyfwng; 2. Yn amlinellu sut y gellid cyfeirio adnoddau at alluogi timau argyfwng ym mhob bwrdd iechyd i ddarparu hyfforddiant a rhaeadru arbenigedd i wasanaethau rheng flaen eraill, yn enwedig cydweithwyr mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, mewn ardaloedd ar y gororau (i wella cysylltiadau trawsffiniol â'r canolfannau hynny a ddefnyddir amlaf gan gleifion sy'n byw	Mae gofal mewn argyfwng a gofal y tu allan i oriau sy'n effeithiol, priodol a chyson yn flaenoriaeth i ni, a dyma pam rydym wedi'i wneud o'r meysydd buddsoddi dewisol ar gyfer ein cyllid trawsnewidiol newydd a gyhoeddwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Unwaith y bydd cynigion byrddau iechyd wedi'u cyflwyno, byddwn yn adolygu'r rhain yn erbyn gofynion yr argymhelliad hwn. <u>(1) Derbyn</u> Er nad oes modd cwblhau hyn o fewn chwe mis. Mae rhai byrddau iechyd eisoes yn darparu arbenigwyr iechyd meddwl penodol sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Heddlu yn yr ystafelloedd rheoli er mwyn sicrhau, pan fydd pobl fregus â salwch meddwl neu sy'n dioddef argyfwng yn cysylltu â nhw, eu bod nhw'n gallu cael y gofal a'r cymorth priodol. Mae angen ystyried ai dull lleol, rhanbarthol neu genedlaethol (e.e. o fewn canolfan NHS111) a fyddai'n darparu'r model mwyaf effeithiol, yn amodol ar werthuso gwaith cyfredol. Y Grŵp Concordat Gofal Argyfwng, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o CAMHS, fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn fel rhan o'i raglen waith y cytunwyd arni. (2/3) <u>Gwrthod</u> Mae hyn eisoes yn rhan o arferion gwaith safonol y tîm argyfwng. Roedd cynigion y Bwrdd Iechyd Lleol yn cynnwys ymrwymiadau i weithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau;

	yng Nghymru), ac mewn ysgolion (i wneud sgyrsiau am hunanladdiad a hunan-niweidio yn benodol yn fater o drefn); 3. Yn sicrhau bod y byrddau iechyd yn darparu cymorth dilynol ar ôl rhyddhau, yn darparu gwybodaeth am sut mae'r byrddau iechyd yn monitro'r ddarpariaeth hon, ac yn ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol; 4. Yn sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd yn cydymffurfio â'r gofyniad i gadw gwelyau dynodedig y gellid eu staffio'n ddigonol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed mewn argyfwng, sy'n nodi sut y bydd hyn yn cael ei fonitro a sut y bydd adroddiad yn cael ei lunio amdano yn y dyfodol, a pha gamau a gymerir os nad yw gwelyau o'r fath ar gael; 5. Yn gweithredu'n gyflym ac mewn ffordd unffurf ar draws y byrddau iechyd i gynnig un pwynt mynediad at wasanaethau arbenigol, er mwyn sicrhau mynediad amserol a phriodol i gymorth, boed yn gymorth brys neu'n gymorth arall; ac 6. Yn myfyrio ar ganlyniadau'r adolygiad o ofal argyfwng, yn amlinellu beth yn fwy sydd angen ei wneud i ddarparu gwasanaeth gofal argyfwng 24/7 diogel a chosteffeithiol ym mhob rhan o Gymru, sut y gwneir hynny, ac erbyn pryd.	darparu gwasanaeth ymgynghori, cyswllt a chyngor i wasanaethau eraill; a darparu cymorth dilynol i gleifion a gwasanaethau eraill. Mewn perthynas ag ymgynghoriad trawsffiniol, roedd cynigion argyfwng Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn caniatáu cysylltiadau gwell ag ysbytai cyffredinol dosbarth cyfagos, yr heddlu a gwasanaethau iechyd meddwl fel bod modd cael gafael ar blant a phobl ifanc yn gynt a'u dychwelyd i'w cartrefi. Disgwylir i fyrddau iechyd adolygu'r ddarpariaeth hon er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ateb y galw. O ran adrodd am y ddarpariaeth, nid yw'r un maes darpariaeth gwasanaethau yn cael ei hysbysu mor fanwl nac mor gyhoeddus na chwaith perthynas â'r modd mae rhannau unigol o'r GIG yn rhyngweithio â'i gilydd i sicrhau gofal parhaus. (4) <u>Derbyn</u> Yn 2015, fe wnaethom gyflwyno canllawiau ar dderbyn rhai dan 18 oed i leoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl, a oedd yn cynnwys canllawiau ar sut i ymdrin â phobl ifanc sydd mewn argyfwng, gan gynnwys yr angen am welyau dynodedig sydd wedi'u staffio'n ddigonol. O ran monitro ac adrodd, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol adrodd am dderbyniadau amhriodol fel digwyddiadau anffafriol difrifol i Lywodraeth Cymru, a fydd yna'n trafod y materion gyda'r byrddau iechyd fel y bo'n briodol. Byddwn yn ategu'r canllawiau i fyrddau iechyd ac yn adolygu cyfanswm y digwyddiadau anffafriol difrifol ar gyfer cyfnod 2017-18. Bydd Rhwydwaith Cynllunio CAMHS yn adolygu'r gwelyau dynodedig er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a chysondeb y ddarpariaeth. (5) <u>Derbyn</u> Er nad oes modd cyflawni hyn mewn chwe mis. Bydd Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, fel rhan o raglen waith 2018-19 a datblygu a gweithredu Fframwaith Gwella CAMHS arbenigol yn ystyried manteision cyflwyno un pwynt cyswllt ar draws y byrddau iechyd. (6) <u>Gwrthod</u> Efallai nad gwasanaeth argyfwng 24/7 fyddai'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau neu'n sicrhau'r gwerth am arian gorau. Mae angen cyngor a chymorth gydol y dydd, ond ni fyddai timau ym mhob ardal yn gost-effeithiol. Mae angen gwella'r ddarpariaeth yn y maes hwn a chanfod y ffordd orau o sicrhau bod mynediad at gyngor arbenigol ar gael yn haws fel bo'r angen - gellid cynnig hyn ar sail ranbarthol neu trwy gysylltu â gwasanaethau cyswllt seiciatrig eraill. Bydd Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, fel rhan o'i rhaglen waith 2018-19, yn gweithio gyda byrddau iechyd i sicrhau

		gwasanaethau cyson sydd ar gael i ateb y galw, ac sy'n gallu gweithio gyda gwasanaethau eraill yn ystod y cyfnodau galw isel er mwyn sicrhau gwasanaeth priodol ac effeithiol i rai dan 18 oed. Goblygiadau ariannol Dim. Bydd modd gwneud hyn o fewn rhaglenni gwaith cyfredol.
16	Bod Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â hunanladdiad yn benodol, yn gweithio gyda sefydliadau arbenigol: 1. I ddarparu, o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, ganllawiau i ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio, i chwalu'r syniad y bydd unrhyw drafodaeth yn arwain at ymateb "heintus"; 2. I roi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau i ysgolion lle bu hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad; ac 3. Yn sicrhau bod hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol, gan gynnwys sut i siarad am hunanladdiad, yn rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, fel bod yr holl athrawon yn gallu siarad am hynny	(1/2) Derbyn mewn egwyddor. Fel (15(2)). Fforymau amlasiantaeth rhanbarthol ar atal hunanladdiad sy'n gyfrifol am roi cynlluniau lleol ar waith. Fel rhan o fenter Siarad â Mi 2, rydym ar fin cyhoeddi canllawiau ar reoli achosion o hunan-niweidio a hunanladdiad mewn ysgolion ar ôl cynnal gweithdy ar y cyd â chynrychiolwyr addysg, iechyd a'r Samariaid sy'n adeiladu ar arferion da cyfredol. Hefyd, mae ymchwiliad Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar atal hunanladdiad ymhlith pobl ifanc 15 oed a throsodd yng Nghymru wrthi'n ystyried maint y broblem a beth ellir ei wneud i fynd i'r afael â hi gan gynnwys effeithiolrwydd dull Llywodraeth Cymru a'i effaith. Rhagwelir y bydd adroddiad terfynol y Pwyllgor yn ymddangos yn yr hydref, a byddwn yn sicrhau bod y canllawiau yn ystyried casgliadau'r Pwyllgor. **(3)** Derbyn mewn egwyddor Rydym wrthi'n diwygio'r modd y caiff **addysg gychwynnol i athrawon** (AGA) ei chyflenwi yng Nghymru. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr achrededig y dyfodol gynllunio a chyflwyno cyrsiau sy'n cefnogi pedwar nod y cwricwlwm cenedlaethol newydd ac sy'n mynd i'r afael â'r chwe maes dysgu ac addysgu, gan gynnwys Iechyd a Lles. Elfen allweddol o'n hagenda ddiwygio gyffredinol yw cyflwyno dull trylwyr newydd o achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon, ac y dylai'r rhain gael eu rheoli gan EWC fel y gall y proffesiwn osod ei ofynion mynediad ei hun. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn ategu ein hymrwymiad i ddatblygu dulliau **dysgu proffesiynol** er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn gallu cynllunio'n well ar gyfer newidiadau'r cwricwlwm. Pan fydd y cwricwlwm drafft ar gael ym mis Ebrill 2019, bydd yn cymryd amser i feithrin ymhellach ein dealltwriaeth o'r heriau dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'i weithredu mewn ysgolion. Mae angen inni sicrhau bod ein harweinwyr a'n hathrawon

		ysgol yn deall y newid gofynnol o ran dull ac athroniaeth i gyflawni'r cwricwlwm newydd. O dymor yr hydref 2018, bydd Arloeswyr Dysgu Proffesiynol yn arwain cylchoedd o ymchwiliadau gweithredu gyda'r rhwydwaith ysgolion ehangach, sy'n canolbwyntio ar ryngweithio cynnar â'r cwricwlwm drafft er mwyn nodi'r gofynion dysgu proffesiynol uniongyrchol. Bydd gwaith ymgysylltu yn cael ei ategu gan bartneriaid ymchwil yn y Sefydliadau Addysg Uwch a phrif arbenigwyr/academyddion ag arbenigedd penodol sy'n cyd-fynd â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn nodi'r addysgeg neilltuol a fydd yn helpu i ddarparu Meysydd Dysgu a Phrofiad yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys pwyslais penodol ar ddysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, er mwyn helpu ymarferwyr i gefnogi ein holl blant a phobl ifanc fel y gallant dyfu'n unigolion iach a hyderus sy'n gallu meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol trwy fagu hyder, cydnerthedd ac empathi. <u>Goblygiadau ariannol</u> Does dim goblygiadau ariannol – mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i ystyried mewn rhaglenni gwaith cyfredol.
17	Bod Llywodraeth Cymru: 1. Yn mynd ati fel mater o frys i fynd i'r afael â'r lleihad yng nghapasiti'r uned cleifion mewnol yn y Gogledd 2. Yn darparu, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, gynllun gweithredu sy'n manylu ar y cymorth ymarferol y bydd yn ei roi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn i'r uned, erbyn haf 2018, allu ailddechrau darparu'r capasiti a gomisiynwyd ar ei chyfer, sef 12 gwely	(1) <u>Derbyn</u> Mae WHSSC wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros y misoedd diwethaf ac mae cryn gynnydd eisoes wedi'i wneud, gan gynyddu'r gwelyau gweithredol i 10 gwely erbyn mis Mai 2018. (2) <u>Gwrthod</u> Mae hyn yn ddiangen gan fod gwaith gan WHSSC a'r bwrdd iechyd eisoes ar droed. <u>Goblygiadau ariannol</u> Does dim goblygiadau ariannol – mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i ystyried mewn rhaglenni gwaith cyfredol.
18	Bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio canlyniadau'r adolygiad o gapasiti cleifion mewnol yng Nghymru fel sail: 1. I ddarparu cymaint o wasanaethau mor agos â	(1) <u>Derbyn</u> Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ifanc sydd angen gofal cleifion mewnol yn cael hwn mor agos â phosib i'w cartref, gydag un o'r ddwy uned cleifion mewnol CAMHS yng Nghymru yn ddewis diofyn. Fodd bynnag, bydd adegau pan fydd pobl

	phosibl i'w cartrefi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru; 2. I gymryd rhan mewn deialog â GIG Lloegr ynghylch opsiynau ar gyfer creu gwelyau arbenigol iawn i gleifion mewnol a allai wasanaethu poblogaethau bob ochr i'r ffin; 3. I archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio unrhyw gapasiti sbâr ar gyfer cleifion mewnol ar ystâd y GIG i ddatblygu gwasanaethau "cam-i-lawr" ar gyfer pobl sy'n gadael lleoliadau. .	ifanc sydd angen gofal anghenion uwch angen gofal mewn canolfan hynod arbenigol yn Lloegr sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y DU gyfan. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu hanfon o Gymru am driniaeth yn brawf o'r ymrwymiad hwn. (2/3) <u>Derbyn</u> Mae WHSSC a Rhwydwaith Cynllunio CAMHS wedi comisiynu gwaith i adolygu darpariaeth y dyfodol o drefniadau comisiynu'r fframwaith cenedlaethol o ysbytai acíwt ac unedau diogelwch isel. Mae'n cwmpasu'r ddarpariaeth i bobl ifanc sydd angen lleoliad y tu allan i Gymru gydag anghenion lleoliad CAMHS/LD, diogelwch isel ac ysbyty acíwt. Mae'r gwaith yn cynnwys modelu manwl nifer y bobl ifanc sydd mewn lleoliadau o'r fath ac mae'n ystyried cyfleusterau haen 4 cyfredol y GIG yng Nghymru. Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Rhwydwaith erbyn mis Medi 2018. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu tra bod potensial i ddiwallu anghenion rhai achosion o OoA yn unedau'r GIG, bydd angen parhau i ddarparu darparwyr lleoliadau arbenigol priodol. Bydd Bwrdd y Rhwydwaith yn sicrhau bod y gwaith hwn yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor yn llawn. Bydd hyn yn cael ei ategu gan waith y Grŵp Cynghori Gweinidogion a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n adolygu'r ddarpariaeth trwy ofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod atebion lleol ac integredig yn cael eu cyflwyno lle bo'r modd. <u>Goblygiadau ariannol</u> Dylai'r gwaith hwn arwain at arbedion effeithlonrwydd o ran sicrhau defnydd gwell o gyfleusterau cyfredol i gleifion mewnol Cymru.
19	Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni pwysigrwydd y cyfnod pontio o ran gallu parhau i ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth, a bregusrwydd penodol pobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion, yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol lunio adroddiad bob chwe mis: 1. Yn nodi'r camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau bod y canllawiau pontio yn cael eu gweithredu; 2. Yn asesu i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r canllawiau; ac 3. Yn nodi manylion yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth geisio darparu gwasanaethau	<u>Gwrthod</u> Mae hyn yn rhan o'r canllawiau pontio a gyhoeddwyd gan y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc sy'n dweud bod disgwyl i fyrddau iechyd adolygu trefniadau pontio yn gyson, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau hyn sy'n mynd i'r afael â phwyntiau (1) i (3). Fodd bynnag, mae adroddiad chwe misol yn afrealistig ac yn rhoi rhagor o feichiau ar wasanaethau a chlinigwyr. Byddwn yn gofyn i Uned Gyflenwi'r GIG drefnu'r gwaith yma yn ei blaengynllun yn hwyrach yn 2018-29, a chydweithio â'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc er mwyn profi'r canllawiau a'r pasbort person ifanc cysylltiedig gyda defnyddwyr gwasanaethau ifanc a byrddau iechyd.

	pontio di-fwlch a sut y maent yn lliniaru'r risgiau hynny.	
20	Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r amrywiad presennol yn y ddarpariaeth a'r rôl hanfodol sydd gan ymyrraeth therapiwtig i'w chwarae, yn llunio cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer darparu therapïau seicolegol i blant a phobl ifanc. Fan lleiaf, dylai hyn gynnwys: 1. Amlinelliad o'r modd y bydd y gwasanaethau sylfaenol, eilaidd ac arbenigol yn cydweithio i sicrhau bod ystod o wasanaethau therapiwtig yn cael eu darparu'n effeithiol ar draws y sbectrwm angen; 2. Cynlluniau penodol ar gyfer datblygu a chynnal llif o ymarferwyr therapiwtig sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol (ac yn cael eu rheoleiddio / cofrestru); 3. Manylion yr adolygiad arfaethedig o'r tueddiadau rhagnodi ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl, gan adeiladu ar waith blaenorol yr Athro Ann John, gan gynnwys asesiad a yw ymyriadau eraill wedi effeithio ar y tueddiadau hyn, i ddechrau yn y 12-18 mis nesaf; ac 4. Asesiad o oblygiadau ariannol a fforddiadwyedd y cynllun, a sut y caiff ei ganlyniadau eu mesur.	Mae Matrics Cymru, a gyhoeddwyd yn 2017 gan y Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol Cenedlaethol (NPTMC), yn amlinellu sut gellir darparu therapïau seicolegol ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl gwahanol. Wrth gefnogi Matrics Cymru, mae'r Pwyllgor yn datblygu cynllun gweithredu sy'n darparu canllawiau am gymwyseddau craidd, hyfforddiant a goruchwyliaeth. (1/2)<u>Derbyn</u> Mae fersiwn benodol i blant o'r Matrics wrthi'n cael ei datblygu, a fydd yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru. Mae'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cefnogi'r gwaith hwn, a fydd yn seiliedig ar strwythur hyfforddiant a goruchwylio Cymru gyfan a hyfforddiant 'Once for Wales'. (3)<u>Derbyn mewn egwyddor</u> Yn dilyn adolygiadau a gomisiynwyd gan Brifysgol Abertawe ar dueddiadau rhagnodi i blant a phobl ifanc yn 2015, bydd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn ystyried a oes digon o gyfiawnhad dros gomisiynu adolygiad pellach, yn seiliedig ar y data dilynol sydd ar gael, a pha mor addas a chadarn ydyw i'w adolygu (h.y. yn gallu gwahaniaethu rhwng rhagnodi gan feddygon teulu ac ysbytai, a'r rhai sy'n cael eu goruchwylio ac a ddechreuwyd gan arbenigwyr ym maes CAMHS, meddygon teulu neu weithwyr proffesiynol eraill). (4)<u>Derbyn</u> Bydd cyllid ychwanegol ar gyfer therapïau seicolegol, gwerth £5.5 miliwn y flwyddyn o 2018-19, yn cael ei ddarparu er mwyn helpu i roi Matrics Cymru ar waith, gan gynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc. <u>Goblygiadau ariannol</u> Bydd gwaith yn cael ei ariannu o'r £5.5 miliwn ychwanegol sydd ar gael gennym bob blwyddyn i wella darpariaeth therapïau seicolegol a gall arwain at arbedion trwy nodi'r dulliau hynny sy'n gweithio orau i blant a phobl ifanc.
21	Bod Llywodraeth Cymru, cyn pen chwe mis o ddyddiad yr adroddiad hwn, yn comisiynu adolygiad o'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir ar hyn o bryd, a'r angen amdanynt, ar gyfer pob plentyn a pherson	<u>Derbyn</u> Ond ni allwn gyflawni hyn o fewn yr amserlen arfaethedig. Mae gan y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc fecanweithiau eisoes ar waith i gynnwys pobl ifanc yn ei gwaith, trwy gysylltiadau eang ar lawr gwlad sy'n nodi lles pob plentyn ac nid dim ond y rhai sy'n

	ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl – nid dim ond y rhai mewn lleoliadau cleifion mewnol. Dylid cynnal yr adolygiad hwn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol megis y Comisiynydd Plant, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd, a phlant a phobl ifanc. Yn seiliedig ar yr adolygiad, dylai Llywodraeth Cymru asesu pa mor ddilys fydd darparu cynnig gweithredol o eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a dylai gyhoeddi adroddiad llawn o'i chasgliadau.	defnyddio gwasanaethau CAMHS. Mae hyn yn cynnwys cydweithio'n agos â Plant yng Nghymru, swyddfa'r Comisiynydd Plant, Amser i Newid Cymru a 'Grŵp Cydweithredol Anghenion Uchel' y trydydd sector. Yn ystod 2018-19, bydd y Rhaglen yn ystyried darparu cymorth eirioli i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau cymunedol. Ar hyn o bryd, mae Awdurdodau Lleol yn comisiynu gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol ar sail ranbarthol, naill ai gan NYAS neu Tros Gynnal, ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid i'r cynnig gweithredol. Efallai y bydd rhywfaint o gyfle i awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd gydgomisiynu. Mae ymrwymiad i adolygu Fframwaith Gwella CAMHS arbenigol sy'n argymell rhoi llais i gleifion a chyfle i blant gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth a rhoi adborth. Bydd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn ystyried ac yn adrodd cyn diwedd y Rhaglen ar ba mor briodol yw'r argymhelliad hwn, o gofio maint y ddarpariaeth gyfredol fel yr un ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sydd wedi cydgomisiynu gwasanaethau ar gyfer yr holl bobl ifanc mewn gwasanaethau arbenigol ac LPMHSS trwy'r Gwasanaethau Eirioli Ieuenctid Cenedlaethol. <u>Goblygiadau ariannol</u> Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu rheoli fel rhan o drefniadau datblygu'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Byddwn yn ystyried unrhyw oblygiadau ariannol pellach o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith – unwaith y caiff ei ddatblygu – bryd hynny.
22	Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws asiantaethau i sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu wrth iddynt gael mynediad i ofal ac ar ôl derbyn gorchymyn atgyfeirio o fewn y system cyfiawnder ieuenctid, ac fel mater o drefn ar ôl hynny. Bydd hyn yn helpu i gynllunio darpariaeth ddigonol o gymorth amlddisgyblaethol i ddiwallu eu hanghenion, sy'n gymhleth yn aml iawn, mewn modd amserol a phriodol.	<u>Derbyn</u> Mae gan bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal yr hawl i gael asesiad iechyd a chynllun iechyd, a ddylai gynnwys asesiad o anghenion iechyd meddwl. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol gydweithio i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal mewn cyflwr iechyd da, a'u bod yn cael archwiliad iechyd rheolaidd. Dylai'r asesiad cyntaf ddigwydd cyn, neu o fewn, eu 20 diwrnod cyntaf mewn gofal ac yna bob chwe mis i rai dan 5 oed, ac o leiaf bob blwyddyn i rai dros 5 oed. Mae Fframwaith Gwella CAMHS yn nodi'r gwaith ymgynghori a chysylltu y dylai gofal cymdeithasol ei ddisgwyl gan CAMHS, a bydd mesurau canlyniadau'r Fframwaith yn dechrau cael eu casglu o 2019 ymlaen. Yn ystod 2018-19, bydd y Rhaglen Law yn Llaw at

		Blant a Phobl Ifanc yn gweithio gyda'r maes gofal cymdeithasol er mwyn adolygu cyfraniad gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol at asesiadau iechyd, gan ystyried ansawdd ac addasrwydd eu cyfraniad a'u cysylltiad parhaus â chynllun iechyd y person ifanc. Bydd hyn yn cynnwys cyfraniad gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol a'u gallu i ddarparu ymyriadau sy'n diwallu anghenion y person ifanc. Yn 2014, fe wnaethom gyflwyno Canllawiau ar Weithredu Polisi ar fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, ar y cyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r Bwrdd, Timau Troseddau Ieuenctid a CAMHS er mwyn datblygu llwybr gofal ac arferion gorau er mwyn helpu i weithredu'r canllawiau. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y canllawiau hyd yma wrth ddiwallu anghenion iechyd meddwl pobl ifanc yn y system gyfiawnder. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd 2018-19. <u>Goblygiadau ariannol</u> Bydd gwaith yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yn rhan o raglen waith barhaus Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn 2018-19. O ran pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, rydym eisoes wedi darparu cyllid ychwanegol o £250,000 ers 2015-16 i gefnogi anghenion y bobl ifanc hyn. Bydd gwaith sydd ar y gweill yn sicrhau bod cyllid wedi'i thargedu i sicrhau'r effaith fwyaf fanteisiol bosib.
23	Bod Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, yn ymgymryd â darn o waith ar ddarparu cymorth emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl i blant sy'n derbyn gofal a phlant a fabwysiadwyd. Dylai hyn: 1. Gael ei hysbysu gan weithgaredd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar blant sy'n derbyn gofal a gwaith y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc; ac 2. Ystyried, yn achos plant sy'n derbyn gofal, i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol i ddarparu'r cymorth corfforol ac emosiynol sydd ei angen	<u>Derbyn mewn egwyddor</u> (1/2) Mae hwn yn waith manwl nad oes modd ei gwblhau o fewn amserlen mor fyr. Mae gwaith ar droed o fewn y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, Grŵp Gorchwyl a Gorffen MAG Preswyl a Grŵp Anghenion Cymhleth dan arweiniad CLlLC, ac mae angen i bob un ohonynt gydweithio a llywio syniadau a gweithgarwch pob Grŵp. Bydd yn cael ei lywio ymhellach gan y dolenni cyswllt sydd wedi'u datblygu rhwng CAMHS a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r gwaith sydd ar droed fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol a gweithgareddau ehangach plant sy'n derbyn gofal, waeth beth yw'r lleoliad. Bydd y camau a gynigir mewn perthynas ag argymhelliad 22 yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ymhellach.

	arnynt.	<u>Goblygiadau ariannol</u> Does dim goblygiadau ariannol – mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i ystyried mewn rhaglenni gwaith cyfredol.
24	Bod Llywodraeth Cymru, o fewn tri mis i'r adroddiad hwn, yn gweithredu ar y dystiolaeth a gafwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod angen iddi sefydlu grŵp trosfwaol "gyda dannedd" i reoli'r cydweithio sydd ei angen rhwng sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn effeithiol ac amserol.	<u>Gwrthod</u> Mae mecanweithiau eisoes ar waith yn lleol ac yn genedlaethol i ddwyn gwasanaethau i gyfrif, a hyrwyddo cydweithredu ar draws asiantaethau a'r trydydd sector. • Mae'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl wedi sefydlu grwpiau sicrwydd amlasiantaeth hirsefydlog (y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a'r Grŵp Sicrwydd Cyflenwi i Blant), sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector. • Bydd Bwrdd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a Bwrdd Iechyd Meddwl Pob Oed arfaethedig y GIG yn sicrhau bod byrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio gyda phartneriaid y 3ydd sector i gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd meddwl.
25	Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn ymateb yn brydlon ac yn gynhwysfawr i arolygon ar niferoedd y gweithlu a wneir gan y Colegau Brenhinol yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i ddylunio gwasanaethau sy'n ystyried y capasiti staffio ac ymateb mewn modd effeithiol ac arloesol i unrhyw brinder.	<u>Derbyn</u> Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd ystyried unrhyw arolygon perthnasol a gynhaliwyd sy'n effeithio ar gynllunio'r gweithlu, ac os yw'n briodol, eu bod yn gweithio gyda'r Colegau Brenhinol ac eraill i lywio'r broses o gynllunio gwasanaethau. Mae cynnwys holl wasanaethau Cymru ym mhroses feincnodi CAMHS y DU gyfan ers 2016 wedi galluogi dadansoddiad pwrpasol a chynhwysfawr ar gyfer y GIG yng Nghymru ac yn fodd i wneud cymariaethau rhwng Cymru a Lloegr, ac o fewn Grŵp cymheiriaid Byrddau Iechyd Lleol ar draws amrywiaeth o ddarpariaethau gwasanaeth, o bob haen, gan gynnwys ansawdd a chanlyniadau, cyllid a'r gweithlu. (gweler yr Argymhelliad Allweddol hefyd) <u>Goblygiadau ariannol</u> Dim.
26	Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn gwneud darn	<u>Derbyn</u> Mae cyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar

	penodol a chynhwysfawr o waith ar y gwasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael yn Gymraeg.	anghenion unigol ac sy'n darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ymrwymiad allweddol yn *Mwy na Geiriau* sy'n cyflwyno camau i wella gwasanaethau Cymraeg. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â T4CYP er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan gynhenid o'i gwaith yn gwella iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc. Bydd y ffocws cychwynnol ar y ddarpariaeth CAMHS arbenigol yn Haen 4, gyda'r bwriad o'i ehangu i feysydd eraill wedyn. <u>Goblygiadau ariannol</u> Heb ei fesur eto – efallai y bydd goblygiadau ariannol yn deillio o ddatblygu a thrwyddedu adnoddau i gyflawni asesiadau ac ymyriadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ystyriwn fod modd blaenoriaethu'r rhain naill ai o fewn cyllidebau rhaglenni neu ar lefel bwrdd iechyd trwy adnoddau cyfredol.
27	Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio adroddiadau am eu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc mewn ffordd unffurf er mwyn eu gwneud yn fwy atebol a thryloyw. Dylai'r data hwn gynnwys gwybodaeth am bob gwasanaeth, nid gwasanaethau eilaidd CAMHS arbenigol yn unig, a dylid ei ddadansoddi fesul maes (ee sylfaenol, eilaidd, argyfwng, therapiwtig, y trydydd sector ac ati).	<u>Gwrthod</u> Mae StatsCymru eisoes yn darparu gwybodaeth sy'n gwahaniaethu rhwng CAMHS gofal sylfaenol a gofal eilaidd Byrddau Iechyd lleol. Byddai gwahaniaethu ymhellach rhwng y meysydd unigol (h.y. gofal argyfwng, ymyriadau therapiwtig ac ati) yn rhoi beichiau gweinyddol diangen ar fyrddau iechyd a phrin yn darparu tystiolaeth o ba mor addas yw'r ddarpariaeth, am rywbeth sy'n rhan fechan iawn o gyfanswm gwariant y GIG, nac yn y fath fanylder a ddarperir mewn unrhyw faes arall o wariant y GIG. Mae costau gwasanaethau uniongyrchol yn cael eu casglu mewn gwaith Cyllido Rhaglenni Blynyddol. Hefyd, nid yw gwariant y GIG ei hun yn cydnabod yr holl gymorth emosiynol a roir i bobl ifanc, gyda chymorth sylweddol yn dod o'r tu allan i'r GIG prif ffrwd. Er enghraifft, mae'r gwariant mwyaf o natur ataliol yn digwydd y tu allan i CAMHS. Felly, nid yw gwariant CAMHS ei hun yn cwmpasu elfen hollbwysig y gwaith ymgysylltu ac ataliol sydd angen ei wneud gyda phlant a phobl ifanc mewn addysg a lleoliadau eraill. Nid yw ffigurau gwariant y GIG yn cynnwys yr elfennau gwariant eraill hyn gan ffynonellau, fel y buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd a phlant gan awdurdodau lleol a gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc.